3 October 2018
The nineteenth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Old Boiler House, Penllergaer

Attendees
Cllr. Wyn Morgan Penllergaer Community Council
David Owen, Planning, City and County of Swansea
Cllr. Kevin Griffith, Pontarddulais Town Council
Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council
Cllr. Frank Jones, Mawr Community Council
Cllr. Wayne Arrowsmith, Mawr Community Council
Philip McDonnell, Chair
David Flatley, Farrans (arrived at 6.20 pm)
Neil McGee, Farrans (arrived at 6.20 pm)
Michael Williams, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions
The chair welcomed participants. Wayne Arrowsmith was attending instead of Paul Northcote.

2. Apologies
2.1 Emma North, Planning, City and County of Swansea; Cllr Paul Northcote, Mawr Community Council; Brigitte Rowlands, Secretary, West Glamorgan Commoners' Association; Sgt. Philip Morris, South Wales Police.

3. Minutes of the previous meeting & matters arising
3.1 The minutes were agreed as a true record of the previous meeting. Proposed by KG and seconded by WM.
3.2 In relation to item 3.3 of the minutes, MW confirmed that the fencing around the ancient monument had been taken down and that the site archaeologist had been in attendance to supervise.
3.3 In relation to item 3.8 of the minutes, text messages about the AIL deliveries are now coming through and problem mobile numbers have been manually registered. FJ noted that there is poor mobile phone reception in Mawr. MW confirmed that other communications had also been implemented, including a letter drop to local residents, a press release, and information had been sent to elected representatives.
3.4 In relation to item 3.9 of the minutes, MW confirmed that local schools had been contacted: Penllergaer, Pontlliw, Pontarddulais and Bryniago Primary Schools, and Pontarddulais Secondary (who confirmed that their buses start to arrive from 2:30 onwards).
3.5 In relation to items 6.2 and 6.4 of the minutes, the Ecological Clerk of Works is preparing a statement on both rushes and peat management issues, and these will be available for circulation very shortly.
3.6 In relation to item 6.13 of the minutes, Kathryn Harries had meant to attend the CLG meeting, but was taken ill. She had sent MW a written update, to be shared later in the meeting.

4. Correspondence
4.1 KG had e-mailed to complain that the text alert message for the very first AIL delivery (22 Sept) had been sent out late, and that in fact the delivery was on route by the time the message was issued. MW explained that there had been a 15-minute delay between the convoy leaving port and the issuing of the text alert, but that this was a glitch that had since been resolved, with better two-way communication between different teams.
4.2 DO reported correspondence from BR concerning an incident where a lorry had got stuck in Felindre. MW confirmed that this was an ordinary HGV (not an AIL), and that the driver had mistakenly used this route. The police were called, and it took around an hour to resolve. Fortunately, there was very little traffic, and no other drivers were inconvenienced. MW is confident that this was a one-off incident and the delivery firm has been asked to avoid such incidences in the future. MW also wished it to be noted that HGVs using this route are not necessarily wind farm construction lorries.

4.3 BR had emailed to ask why no text alert had been sent in relation to the delivery of two hubs on 2 October. MW confirmed that the delivery had no police escort and required no abnormal manoeuvres, and was therefore treated as a standard delivery, which would not cause traffic disruption, and so a text alert was not necessary.

5. Update from Michael Williams

5.1 All access tracks have now been completed, with the exception of maintenance during deliveries.
5.2 Small quantities of stone being imported to top off the hardstanding areas.
5.3 All sixteen foundation pours have been completed. The met mast foundation has also been completed. There are no further significant concrete pours required.
5.4 External Transformers – 12 on site, with the final 4 to be delivered next week.
5.5 Fencing is completed. Some further maintenance work is being done on the crossing points.
5.6 Restoration work has started, with the reinstatement of top-soil and peat.
5.7 The exit out onto the Golden Mile was closed due to the temporary road closure and has remained closed.
5.8 A considerable amount of work has been focussed on the Control Building. Civils work is largely complete, awaiting installation of electrical components before being fully finished.
5.9 Electrical fit out of the building has been progressing with installation of small power, electrical switchgear and control cabling.
5.10 Externally, the 132 kv transformer was delivered on 29th Aug and will be commissioned mid-October.
5.11 Western Power Distribution (WPD) mobilised to site on 17th September and have installed their external switchgear, isolators etc. Works to their room and on the cable connection to the adjacent pylon will progress in the coming weeks.
5.12 On site, LV cables and HV cabling has been progressed. LV cables installed to 3 turbine bases and HV cable has been installed to the first string (approx. 50% of site). HV cabling expected to take a further two weeks. LV installation will progress in front of turbine erection.
5.13 All components delivered to Swansea Port and offloaded by Saturday 22nd January.
5.14 **Turbine component deliveries** commenced on Saturday 22nd September – Mid Tower and nacelle. First blade set on Monday 24th September. Deliveries made such that components for the first turbine were on site by end of Tuesday 25th September. Cranes arrived on site on Wednesday 26th September. First lift now imminent. Current status: Three blade sets, one full tower set, 2 nacelles, 4 hubs. Three component vehicles on morning convoy and two in the afternoon. Text service being utilised and has approx. 250 people signed up. No issues raised – Police and Haulier are happy with progress to date.
5.15 Rhododendron works will recommence (with a new contractor) to the area north of Five Ways towards the dam works with stem injection of plants to the river's edge.
5.16 Archaeologist's supervision has been concluded.

Questions and discussion

5.17 As all access tracks have now been installed, there is a dramatic reduction in the number of deliveries to site, and the reduction in construction traffic has been noted and welcomed in Mawr.
5.18 The impact of dust is reducing as a result of the reduced flow of traffic, and increased rainfall, although dust suppression wagons remain on site and are still utilised from time to time
5.19 WA felt the transformer boxes installed next to the turbine bases were very prominent and asked whether they could be painted in more sympathetic colours. MW explained that the transformer boxes are light grey to match the turbines, and that once the turbines are erected, the transformer boxes will not look so prominent. The colour was subject to planning approval. It is likely that Innogy would resist changing the colour at this stage, as this would require an amendment to the planning consent, and has cost implications, not least, for ongoing maintenance. It was agreed that the visual context would change after the wind farm has been completed.
5.20 WA also raised concerns about the materials used for the roof of the sub-station. His concerns had been brought before a previous CLG meeting, and MW and DO reminded members that originally, the roof was to be slated, but that a change to the planning condition had been agreed, so that a composite plastic material could be used. WA felt that Mawr Council should have been consulted, but DO explained that there is no requirement for the LA to consult on small technical changes, such as this.

5.21 WA also raised the colour of the sub-station perimeter fencing. It is galvanised steel, and WA feels it does not blend in with the surrounding environment. MW explained that the fencing material was chosen to meet Western Power Distribution's (WPD) strict specification. The building houses a high-voltage electrical sub-station, and as such, the specifications for such infrastructure is tightly regulated. The galvanised steel will fade over time. The sub-station is located on private land, and the area around the sub-station is land that had been moved into common (Replacement Land). MW recalled that there was a landscaping scheme developed many years ago, but that this had not proceeded to the planning stage. Members felt that the planting of trees around the site, would help, although it was acknowledged that there are strict rules about introducing new plant species onto the common. The common is owned by the Somerset Trust, and FJ (who is a commoner) reported that changes can and are made to the common, with the agreement of the Somerset Trust, often negotiated through the West Glamorgan Commoners' Association. (Action: MW to seek advice from colleagues in Innogy on landscaping possibilities and report back).

5.22 The deliveries are scheduled over a 16-week period and the speed at which deliveries are made will be determined by how quickly the components can be erected, which is wind-dependent (i.e. in high wind speeds, it is not safe to erect the turbines). Components will be stored at the port rather than on site.

Community Benefit Fund – written update from Kathryn Harries of Innogy

5.23 MW read the written update from KH:

- *The Community Council workshops will be going ahead as planned in November, date tbc next week. KH will be writing to all Community Councils within the area of benefit for the Local Community Fund to invite up to 2 representatives from each Community Council to attend.*
- *KH will be hosting the event with representatives from SCVS. The planned agenda items are:*
    - *A recap on the overall fund structure*
    - *The draft application form and criteria for the Local Fund*
    - *The grant panel member application process*
    - *Planned timescales for the launch of the fund/election of grant panel members and first round of grants.*

  After each item we will invite comments and take any questions from the Community Councillors.

  There will also be an opportunity for individual Community Councils to discuss with representatives from SCVS any specific project plans they have, either in this session or at a later date.

5.24 KH had also posed a number of questions for CLG Community Council representatives:

- *Are there any other agenda items they would like KH to cover?*
- *Would any of them like to offer a community venue to host the event?*
- *Do they have a preference with regard time of day for this meeting? Approx. workshop duration will be 2 hours but KH and SCVS will be available to stay on longer to continue discussions if necessary.*

5.25 PN was disappointed with progress and had hoped that community councils would, by this stage, have seen copies of plans and paperwork relating to the fund process, and would have been more involved in it. He felt that as Innogy had long experience of developing community benefit funds, that this experience should be applied to the Mynydd y Gwair wind farm community benefit fund. Other members agreed, and felt that there had not been enough engagement and that this gave rise to some scepticism.

5.26 PN felt that community council representatives should be given copies of the contract between SCVS and Innogy, so that they can be clear on what the terms are.

5.27 The Chair reminded CLG members that the community benefit fund was not part of the remit of the CLG, and DO confirmed that the planning condition that triggered the establishment of the CLG referred to the construction of the wind farm only. However, it was felt that in the absence of any other forum in which to discuss the community benefit fund, then it was legitimate to have the discussion at the CLG. The Chair reminded members that they had been advised to contact the SCVS with any questions, and he suggested that the workshop being proposed in November was the main opportunity to receive information and provide feedback on how the fund should be developed.

5.28 Members asked that the following points be fed back to KH:

- Community Councils will need to elect their 2 workshop representatives and therefore the workshop needs to be held later in November so that CCs have had a chance to meet and nominate.
- CCs would like copies of all relevant material prior to the workshop in order to be properly prepared. This includes all draft documents referring to how the fund will be set up and any governance matters. In addition, it should be made clear to CCs what matters have yet to be decided, and therefore, what areas CC representatives can influence at this stage.
- Members felt it was better for the workshop to be held in the evening.
- It was proposed that Pontarddulais or Tircoed could host a workshop event.
- POST MEETING NOTE: Workshop being planned for Tuesday 27th November between 6pm and 8pm. Venue to be confirmed.

6. AOB

6.1 FJ reported that he is growing increasingly concerned about the impact of the wind farm. FJ lives in the property closest to the site, and he is concerned about how close one of the turbines is located, and about noise. He will not be able to see the turbine from his house (it is located behind his farm). DO explained that there is a planning condition specifically referring to noise impact and that this was thoroughly assessed during the planning process. Noise will be continuously monitored, and should the noise breach acceptable levels, then there are mitigation steps that can be taken. MW explained that technological improvements meant that modern turbines are quieter than older models and larger turbines can be quieter than smaller ones as they generally have a lower rotational speed.

6.2 FJ is also concerned about shadow flicker. MW explained that shadow flicker is a matter that can be easily mitigated. The turbine can be controlled so that the rotor does not turn at certain times of day where conditions could otherwise cause the effect, thus eliminating the impact.

7. Next meeting:

The next meeting will be held on Thursday 15th November, at 6 pm. Venue tbc.

The meeting concluded at 7.30 pm.

3 Hydref 2018
Pedwerydd cyfarfod ar bymtheg Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
Yr Hen Foelerdy, Penllergaer

Yn bresennol
Y Cynghorydd Wyn Morgan Cyngor Cymuned Penllergaer
David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd Kevin Griffith, Cyngor Tref Pontarddulais
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Y Cynghorydd Frank Jones, Cyngor Cymuned Mawr
Y Cynghorydd Wayne Arrowsmith, Cyngor Cymuned Mawr
Philip McDonnell, Cadeirydd
David Flatley, Farrans (cyrhaeddodd am 6.20pm)
Neil McGee, Farrans (cyrhaeddodd am 6.20pm)
Michael Williams, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Croeso a chyflwyniadau
Croesawodd y Cadeirydd yr holl gyfranogwyr. Bu Wayne Arrowsmith yn bresennol yn lle Paul Northcote.

2. Ymddiheuriadau
2.1 Emma North, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe; Y Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr; Brigitte Rowlands, Ysgrifennydd, Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg; Sarsiant Philip Morris, Heddlu De Cymru.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi
3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol. Cynigiwyd gan KG ac eiliwyd gan WM.
3.2 Parthed eitem 3.3 y cofnodion, cadarnhaodd MW fod y ffensys o amgylch yr heneb wedi'u tynnu i lawr a bu archeolegydd y safle yn bresennol i oruchwylio'r gwaith.
3.3 Parthed eitem 3.8 y cofnodion, erbyn hyn mae negeseuon testun ynghylch y dosbarthiadau AIL yn cyrraedd a bod y rhifau ffôn symudol a oedd yn profi problemau wedi'u cofrestru â llaw. Nododd FJ fod y signal ffonau symudol yn wael ym Mawr. Cadarnhaodd MW fod dulliau cyfathrebu eraill wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys anfon llythyron at drigolion lleol, datganiadau i'r wasg, ac anfonwyd gwybodaeth at gynrychiolwyr etholedig.
3.4 Parthed eitem 3.9 y cofnodion, cadarnhaodd MW y cysylltwyd ag ysgolion lleol: ysgolion cynradd Penllergaer, Pontlliw, Pontarddulais a Bryniago, ac ysgol uwchradd Pontarddulais (a gadarnhaodd fod eu bysiau'n dechrau cyrraedd o 2.30pm ymlaen).
3.5 Parthed eitemau 6.2 a 6.4 y cofnodion, mae'r Clerc Gwaith Ecolegol yn llunio datganiad ar faterion yn ymwneud â rheoli brwyn a mawn, a bydd y rhain ar gael i'w dosbarthu cyn hir.
3.6 Parthed eitem 6.13 y cofnodion, bu Kathryn Harries yn bwriadu mynychu'r cyfarfod CLG ond bu'n sâl. Anfonodd ddiweddariad ysgrifenedig at MW, i'w rannu yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

4. Gohebiaeth
4.1 Anfonodd KG neges e-bost i gwyno bod neges destun i rybuddio am ddosbarthiad cyntaf AIL (22 Medi) wedi'i hanfon yn hwyr, a bod y dosbarthiad ar ei ffordd erbyn i'r neges gael ei hanfon. Esboniodd MW fod oedi o 15 munud rhwng y confoi'n gadael y porthladd ac anfon y neges destun ond bod y broblem honno wedi'i datrys erbyn hyn a cheir lefel well o gyfathrebu dwy ffordd rhwng timau gwahanol.
4.2 Adroddodd DO ar ohebiaeth gan BR ynghylch digwyddiad lle aeth lori'n sownd yn Felindre. Cadarnhaodd MW mai Cerbyd Nwyddau Trwm arferol (nid AIL) oedd y lori a bod y gyrrwr wedi dilyn y llwybr hwn ar ddamwain. Ffoniwyd yr heddlu a chymerodd dros awr i ddatrys y broblem. Yn ffodus, nid oedd llawer o draffig ac nid achoswyd anghyfleustra i yrwyr eraill. Mae MW yn hyderus mai digwyddiad unigol oedd hwn a gofynnwyd i'r cwmni dosbarthu osgoi digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Hefyd dymunodd MW gofnodi nid yw

Cerbydau Nwyddau Trwm sy'n defnyddio'r llwybr hwn o reidrwydd yn lorïau'n ymwneud â gwaith adeiladu'r fferm wynt.
4.3 Anfonodd BR neges e-bost i holi pam nad anfonwyd neges destun ynghylch dosbarthiad dau hyb ar 2 Hydref. Cadarnhaodd MW nad oedd yr heddlu'n hebrwng y dosbarthiad ac nid oedd angen cyflawni unrhyw symudiadau anarferol ac felly cafodd ei drin fel dosbarthiad arferol na fyddai'n amharu ar lif y traffig ac nid oedd angen anfon neges destun.

5. Diweddariad gan Michael Williams
5.1 Erbyn hyn mae pob llwybr mynediad wedi'i gwblhau ac eithrio cynnal a chadw yn ystod dosbarthiadau.
5.2 Mae cyfanswm bach o gerrig yn cael ei fewnforio i roi ar ben yr ardaloedd llawr caled.
5.3 Mae pob un o'r 16 o arllwysiadau'r sylfaen wedi'i gwblhau. Mae sylfaen y mast hefyd wedi'i chwblhau. Nid oes angen unrhyw arllwysiadau sylweddol pellach o goncrit.
5.4 Trawsnewidwyr Allanol – 12 ar y safle a dosberthir y 4 olaf yr wythnos nesaf.
5.5 Mae'r ffensio wedi'i gwblhau. Cynhelir gwaith cynnal a chadw pellach ar y mannau croesi.
5.6 Mae'r gwaith adnewyddu wedi'i ddechrau gan ailosod uwchbridd a mawn.
5.7 Caewyd yr allanfa i'r Golden Mile o ganlyniad i gau'r ffordd dros dro ac mae wedi parhau i fod ar gau.
5.8 Canolbwyntiwyd swm sylweddol o waith ar yr Adeilad Rheoli. Mae'r gwaith sifil i raddau helaeth wedi'i gwblhau, aros am osod cydrannau trydanol cyn ei orffen yn gyfan gwbl.
5.9 Mae'r gwaith o osod y trydan wedi bod yn cynyddu trwy osod pŵer, teclynnau trydanol a cheblau rheoleiddio.
5.10 Yn allanol, dosbarthwyd y trawsnewidydd 132kv ar 29ain Awst a chaiff ei gomisiynu ganol mis Hydref.
5.11 Symudodd Western Power Distribution (WPD) i'r safle ar 17eg Medi gan osod eu teclynnau allanol, ynysyddion ayyb. Bydd y gwaith i'w ystafell a'r cysylltiad cebl ar y peilon cyferbyn yn symud yn ei flaen dros yr wythnosau i ddod.
5.12 Ar y safle, mae'r gwaith ceblau LV a cheblau HV wedi symud yn ei flaen. Gosodwyd ceblau LV i waelod 3 thyrbin a gosodwyd ceblau HV cychwynnol (tua 50% o'r safle). Disgwylir i'r gwaith o osod ceblau HV gymryd dwy wythnos arall. Bydd y gwaith gosod LV yn symud yn ei flaen cyn codi'r tyrbinau.
5.13 Pob cydran i'w ddosbarthu i Borthladd Abertawe a'i gludo erbyn dydd Sadwrn 22ain Ionawr.
5.14 Cychwynnodd y **dosbarthiadau cydrannau tyrbinau** ddydd Sadwrn 22ain Medi - Canol y Tŵr a nasel. Llafn cyntaf ar ddydd Llun 24ain Medi. Gwnaethpwyd y dosbarthiadau fel bod y cydrannau ar gyfer y tyrbin cyntaf ar y safle erbyn diwedd dydd Mawrth 25ain Medi. Cyrhaeddodd y craeniau ar y safle ddydd Mercher 26ain Medi. Cyflawnir y codiad cyntaf yn fuan. Y statws cyfredol: tair set o lafnau, un set tŵr gyflawn, 2 nasel, 4 hyb. Tri cherbyd cydrannau ar gonfoi'r bore a dau yn y prynhawn. Defnyddir y gwasanaeth negeseuon testun ac mae tua 250 o bobl wedi cofrestru arno.
Ni chodwyd unrhyw broblemau – mae'r heddlu a'r cludwyr yn hapus gyda'r cynnydd hyd yma.
5.15 Bydd y gwaith rhododendron yn ailgychwyn (gyda chontractwr newydd) yn yr ardal i gyfeiriad y gogledd o Five Ways tuag at waith yr argae a phlannir planhigion wrth ymyl yr afon.
5.16 Mae goruchwyliaeth yr archeolegydd wedi dod i ben.
Cwestiynau a thrafodaeth
5.17 Am fod pob llwybr mynediad wedi'i osod erbyn hyn ceir nifer sylweddol lai o ddosbarthiadau i'r safle a nodwyd a chroesawyd gostyngiad yng nghyfanswm y traffig adeiladu ym Mawr.
5.18 O ganlyniad i lefelau is o draffig adeiladu a lefelau uwch o law mae effaith y llwch yn gostwng er bod lorïau atal llwch yn parhau ar y safle a chânt eu defnyddio o bryd i'w gilydd
5.19 Teimlodd WA fod blychau'r trawsnewidwyr a osodwyd wrth waelod y tyrbinau'n amlwg iawn a gofynnodd a fyddai modd eu peintio mewn lliwiau mwy anweladwy. Esboniodd MW fod blychau'r trawsnewidwyr yn llwyd golau i gyd-fynd â'r tyrbinau ac unwaith caiff y tyrbinau eu codi ni fydd blychau'r trawsnewidwyr mor amlwg. Bu'r lliw yn destun caniatâd cynllunio. Mae'n annhebygol y byddai Innogy yn newid y lliw ar hyn o bryd oherwydd byddai angen diwygio'r caniatâd cynllunio, sy'n achosi goblygiadau cost, ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus fel isafswm. Cytunwyd y byddai'r cyd-destun gweledol yn newid ar ôl i'r fferm wynt gael ei chwblhau.
5.20 Hefyd cododd WA pryderon ynghylch y deunyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer to'r is-orsaf. Codwyd ei bryderon gerbron cyfarfod CLG blaenorol, ac atgoffodd MW a DO aelodau mai'r cynllun gwreiddiol oedd gosod

llechi ar y to ond cytunwyd ar newid i'r caniatâd cynllunio er mwyn gallu defnyddio deunydd plastig cyfansawdd. Teimlodd WA y dylid bod wedi ymgynghori â Chyngor Mawr, ond esboniodd DO nad oedd angen i'r Awdurdod Lleol ymgynghori ar fân newidiadau technegol megis y newid hwn.
5.21 Hefyd cododd WA liw ffensys yr is-orsaf. Mae'n ddur galfanedig ond teimla WA nid yw'n gweddu'r amgylchedd o'i amgylch. Esboniodd MW y dewiswyd deunydd y ffensys i ddiwallu manyleb lem Western Power Distribution (WPD). Mae'r adeilad yn gartref i is-orsaf drydanol foltedd uchel ac felly ceir rheoliadau tynn ar gyfer manylebau isadeiledd o'r fath. Bydd y dur galfanedig yn colli ei liw dros amser. Lleolir yr is-orsaf ar dir preifat ac mae'r ardal o amgylch yr is-orsaf yn dir a symudwyd i dir comin (Tir Cyfnewid). Cofiodd MW am gynllun tirlunio a ddatblygwyd sawl blwyddyn yn ôl ond nid oedd wedi symud ymlaen i'r cam cynllunio. Teimlodd aelodau y byddai plannu coed o amgylch y safle yn helpu er cydnabuwyd bod rheolau llym ynghylch plannu rhywogaethau newydd o blanhigion ar y comin. Ymddiriedolaeth Somerset sy'n berchen ar y comin ac adroddodd FJ (sy'n gominwr) y gellir gwneud newidiadau a chânt eu gwneud i'r comin gyda chytundeb Ymddiriedolaeth Somerset, a drafodir yn aml trwy Gymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg. (Gweithred: MW i ofyn am gyngor gan gydweithwyr yn Innogy ynghylch posibiliadau tirlunio ac adrodd yn ôl).
5.22 Trefnir y dosbarthiadau dros gyfnod o 16 o wythnosau a phenderfynir ar gyflymder y dosbarthiadau gan ba mor gyflym y gellir codi'r cydrannau sy'n amodol ar y gwynt (h.y. cyflymder gwynt uchel, nid yw'n ddiogel i godi'r tyrbinau). Cedwir y cydrannau yn y porthladd yn hytrach nag ar y safle.

Cronfa Budd Cymunedol – ysgrifennwyd y diweddariad gan Kathryn Harries o Innogy

5.23 Darllenodd MW y diweddariad ysgrifenedig gan KH:

- *Cynhelir gweithdai'r Cyngor Cymuned ym mis Tachwedd, dyddiad i'w gadarnhau yr wythnos nesaf. Bydd KH yn ysgrifennu i bob Cyngor Cymuned yn yr ardal fudd ar gyfer y Gronfa Budd Cymunedol Leol i wahodd hyd at 2 gynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned i fynychu.*
- *KH fydd yn cynnal y digwyddiad gyda chynrychiolwyr o SCVS. Yr eitemau agenda arfaethedig yw:*
    - *Diweddariad ar strwythur cyffredinol y gronfa*
    - *Ffurflen gais ddrafft a'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Leol*
    - *Proses ymgeisio aelodau panel y grant*
    - *Amserlenni arfaethedig ar gyfer lansio'r gronfa/ethol aelodau panel y grant a rownd gyntaf y grantiau.*

  Ar ôl pob eitem byddwn yn gwahodd sylwadau ac yn derbyn cwestiynau gan y Cynghorwyr Cymuned.

  Hefyd ceir cyfle i Gynghorau Cymuned unigol drafod gyda chynrychiolwyr o SCVS ynghylch unrhyw gynlluniau prosiect penodol sydd ganddynt, naill ai yn ystod y sesiwn hon neu rywbryd arall.

5.24 Hefyd gofynnodd KH nifer o gwestiynau i gynrychiolwyr Cyngor Cymuned CLG:

- *A oes unrhyw eitemau agenda eraill y dymunent i KH eu cynnwys?*
- *A ddymuna unrhyw un ohonynt gynnig lleoliad cymunedol i gynnal y digwyddiad?*
- *A oes ganddynt amser a ffafrir ar gyfer cynnal y cyfarfod hwn? Bydd y gweithdy'n para am ryw 2 awr ond bydd KH a SCVS ar gael i aros yn hirach i barhau â'r drafodaeth os bydd angen.*

5.25 Bu PN yn siomedig o ran y cynnydd gan obeithio y byddai'r cynghorau cymuned wedi gweld copïau o'r cynlluniau a'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â phroses y gronfa erbyn hyn a byddant wedi cael eu cynnwys yn rhan o'r broses yn fwy. Teimlodd fod gan Innogy brofiad maith o ddatblygu cronfeydd budd cymunedol a dylid cymhwyso'r profiad hwn i gronfa budd cymunedol fferm wynt Mynydd y Gwair. Cytunodd aelodau eraill a theimlwyd nad oedd ymgysylltu digonol a bod hyn wedi achosi ychydig o sgeptigaeth.
5.26 Teimlodd PN y dylai cynrychiolwyr cynghorau cymuned dderbyn copiau o'r contract rhwng SCVS ac Innogy er mwyn bod yn glir o ran y telerau.
5.27 Atgoffodd y Cadeirydd aelodau CLG nad oedd y gronfa budd cymunedol yn rhan o gylch gorchwyl y CLG, a chadarnhaodd DO y cyfeiria'r amod cynllunio a anelodd at sefydlu'r CLG at adeiladu'r fferm wynt yn unig. Fodd bynnag, teimlwyd, yn absenoldeb unrhyw fforwm arall lle gellid trafod y gronfa budd cymunedol, ei fod yn briodol i gynnal y drafodaeth yn ystod y CLG. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cynghorwyd iddynt gysylltu â SCVS os oes ganddynt unrhyw gwestiynau, ac awgrymodd mai'r gweithdy arfaethedig ar gyfer mis Tachwedd oedd y prif gyfle i dderbyn gwybodaeth a rhoi adborth ar sut y dylai'r gronfa gael ei datblygu.

5.28 Gofynnodd aelodau i'r pwyntiau canlynol gael eu bwydo yn ôl i KH:

- Bydd angen i Gynghorau Cymuned ethol eu dau gynrychiolydd gweithdy ac felly mae angen i'r gweithdy gael ei gynnal yn hwyrach ym mis Tachwedd er mwyn i'r Cynghorau Cymuned gael cyfle i gyfarfod ac enwebu.
- Hoffai Cynghorau Cymuned dderbyn copïau o'r holl ddeunydd perthnasol cyn y gweithdy er mwyn gallu paratoi'n gywir. Mae hyn yn cynnwys pob dogfen ddrafft sy'n cyfeirio at sut y sefydlir y gronfa ac unrhyw faterion llywodraethu. Yn ogystal, dylid gwneud yn glir i Gynghorau Cymuned pa faterion nad ydynt wedi'u penderfynu hyd yn hyn ac felly pa feysydd y gall cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned gael dylanwad arnynt ar yr adeg hon.
- Teimlodd aelodau y byddai'n well pe bai'r gweithdy'n cael ei gynnal gyda'r hwyr.
- Cynigiwyd y gallai Pontarddulais neu Dircoed gynnal digwyddiad gweithdy.
- NODYN AR ÔL Y CYFARFOD: Trefnir gweithdy ar gyfer dydd Mawrth 27ain Tachwedd rhwng 6.00pm ac 8.00pm. Lleoliad i'w gadarnhau.

6. Unrhyw Fusnes Arall

6.1 Adroddodd FJ ei fod yn gynyddol bryderus o ran effaith y fferm wynt. Mae FJ yn byw yn yr eiddo agosaf at y safle ac mae'n pryderu o ran pa mor agos y mae un o'r tyrbinau wedi'i leoli ac am y sŵn. Ni fydd modd iddo weld y tyrbin o'i dŷ (mae wedi'i leoli y tu ôl i'w fferm). Esboniodd DO fod amod cynllunio yn cyfeirio'n benodol at effaith sŵn a bod hyn wedi'i asesu'n drylwyr yn ystod y broses gynllunio. Caiff lefelau sŵn eu monitro'n barhaus a phe bai'r sŵn yn torri'r lefelau derbyniol yna gellir cymryd camau lliniarol. Esboniodd MW fod gwelliannau technolegol yn golygu bod tyrbinau modern yn dawelach na'r modelau hŷn a gall tyrbinau mwy fod yn dawelach na thyrbinau llai am fod ganddynt gyflymder cylchdroi is yn gyffredinol.

6.2 Mae FJ hefyd yn pryderu ynghylch cysgodion symudol. Esboniodd MW fod cysgodion symudol yn fater y gellir ei liniaru'n hawdd. Gellir rheoli'r tyrbin fel nad yw'r rotor yn troi ar adegau penodol yn ystod y dydd pan allai amodau achosi'r effaith, gan felly ddileu'r effaith.

7. Y Cyfarfod Nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 15fed Tachwedd, am 6.00pm. Lleoliad i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm.